

Ysgol

Botwnnog

Gweithdai Blasu

Trefnwyd sesiynau blasu i blant Blwyddyn 6 yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn gwersi Technoleg, Ffrangeg a Technoleg Gwybodaeth ac i ddod yn gyfarwydd â bywyd am ddiwrnod yn yr Ysgol Uwchradd.



Rhai o ddisgyblion Bl6 yn brysur ar dasg gyfrifiadurol

Pêl-droed



Tîm pêl-droed Blwyddyn saith

Yr oedd hi'n bawn mwyn ym mis Rhagfyr ac am unwaith roedd cyflwr y cae pêl-droed yn ardderchog. Cofiwch y dyddiad, 4ydd o Ragfyr, 2014, trechwyd Glan y Môr mewn gêm bêl-droed. Dau dîm o Flwyddyn 7 oedd yn yr ymrafael a dechreuodd bechgyn Glan y Môr ar dân gan basio'n gelfydd yng nghanol cae a gwelwyd ton ar ôl ton o ymosodiadau ganddynt. Roedd diffyg trefn yn amddiffyn Botwnnog ac roedd hi'n anodd cael y bêl dros yr hanner ffordd. Cadwyd y gêm yn ddi-sgôr gan arbedion gwych Kieron yn y gôl. Yn raddol cododd hyder y tîm cartref a daeth mwy o drefn a chyd chwarae i'w gêm. Roedd Glan y Môr yn dal i ymosod a canfu un taran o ergyd dop y rhwyd ychydig cyn hanner amser. Yn yr ail hanner daeth chwaraewyr canol cae Botwnnog fwyfwy i'r gêm gyda Kit a Berian, ac ar ôl cymysgedd yn amddiffyn Glan y Môr sgoriodd Berian. Daliodd Botwnnog i ymosod a chafwyd cic gornel ar y dde efo chwe munud i fynd. Taranodd Brandon y bêl i'r canol a methodd Glan y Môr ei chlririo a sgoriodd Berian ei ail gôl. Erbyn hyn roedd yr hyfforddwr Mr. Dafydd Eurgain Jones wedi eilyddio nifer o chwaraewyr a chryfhaodd hyn yr amddiffyn a daliwyd hwy allan hyd y chwiban olaf am fuddugoliaeth gofiadwy. Llongyfarchiadau i'r tîm i gyd.

Clwb Antur



Catherine Atherton yn ymlafnio ar y wal ddringo yng Nghaernarfon

Ers dechrau y flwyddyn ym mis Medi mae yna nifer o fechgyn a genethod Blwyddyn 10 wedi cael cyfle i ymuno â chlwb antur newydd. Syniad oedd hwn ar y cyd rhwng yr Ysgol a Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd. Mae'r disgyblion wedi profi nifer o weithgareddau awyr agored megis ceufadu (*kayaking*), a dringo.

Y gobaith yw y bydd y disgyblion yn ennill Gwobr Dug Caeredin cyn diwedd y flwyddyn. I wneud hyn bydd rhaid iddynt gynllunio alldaith dros nos a gwneud gwaith gwirfoddol yn eu cymuned. Diolch i Sam Humphreys am arwain y clwb.

Y Gymdeithas Rien

Clwb Codi Arian – Dyma'r enillwyr am Dymor y Nadolig 2014:-

£100 – Mrs. G. Roberts Jones, Crugan, Llanbedrog; Mrs. Jean Owen, Rhos Newydd, Mynytho; £80 – Iolo Llywelyn Jones, Rhos Goch, Llaniestyn; Mrs. Iona Williams, Brynchwilog Uchaf, Uwchmynydd; £70 – Mrs. Nia Parry, Tŷ Fair, Bryn croes; Mr. Malcolm Roberts, Pendre, Sarn; £50 – Mrs. Mari Jones, Llwydiarth, Chwilog; Mr. R.J. Williams, Tŷ Hen, Llangwennadl; £40 – Mrs. Gwen Jones, Llain, Llaniestyn; M/s Carol Chorlton, Wenolfa, Abersoch; £25 – Mr. Terry Hughes, Gerallt, Tudweiliog; Mr. R.P. Midwood, Cobblestones, Lôn Las, Morfa Nefyn; £20 – Mrs. Beryl Thomas Wallace, Rhydgaled, Nanhoron; Mrs. Marian Williams, Tŷ Hir, Tudweiliog; £10 – Alun ac Ann Jones, Argraig, Sarn; Mr. Jim Taylor, Henllys Ganol, Llanbedrog.

Diolch i chwi gyd am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn. Mae ffurflenni ar gael yn y swyddfa os ydych eisiau ymuno o'r newydd. £12.00 y flwyddyn yw'r gost.

Mae Banc Dillad yr ysgol wedi cael ei symud i fynedfa y maes parcio (giatiau dwbl glas). Cofiwch amdano – mae'r elw a gawn yn mynd tuag ag y Gymdeithas Rien er lles ein disgyblion. Diolch am eich cefnogaeth.

Gwobrau Llenyddol

Fel y gwyddoch mae cryn sylw wedi'i roi ar y cyfryngau i Dylan Thomas eleni gan bod can mlynedd ers geni'r bardd. Lansiwyd cystadleuaeth ryngwladol gan 'Llenyddiaeth Cymru' i ddatlu bywyd y bardd a daeth cryn anrhydedd i'r ysgol pan ddaeth dau ddisgybl yn fuddugol mewn dau gategori y naill ar gyfer disgyblion 11-14 oed a'r llall i ddisgyblion 14-19. Ym mis Hydref daeth y newydd fod gwobrau ac anrhydedd arbennig yn dod i ran Lois Llywelyn sydd bellach yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac i Huw Evans disgybl ym Mlwyddyn 8. Bu raid cadw'r cyfan yn gyfrinach tan noson y seremoni yn Abertawe. Yn bresennol roedd wyres y bardd a'r gweinidog Addysg a braf dweud mai Anni Llŷn oedd yn llywio'r seremoni. Cafodd Huw a Lois hefyd eu cyfwrdd ar raglen Sian Cothi a darllenwyd eu gwaith ar y radio. Daeth nifer o alwadau ffôn yn sgil y cyfweiliadau yn canmol y ddau am iaith raenus a'u dawn dweud naturiol.

Beth felly gofynnwch oedd camp y ddau? Yn y gwersi Cymraeg aethpwyd ati i astudio detholiad o 'Dan y Wenallt', addasiad T. James Jones a'r gerdd 'A Hunchback in the Park.' Llanregub Huw oedd ardal Anellog ac Uwchmynydd – ac mae'n werth i chi ddarllen sylwadau Huw a Lois ar www.developingdylan100.co.uk/international-competition/. Mae eu gwaith yn cynnwys delweddu gwreiddiol a chofiadwy ac mi glywch adlais o waith Dylan Thomas yng ngwaith y ddau. Cyfansoddi dwy gerdd a wnaeth Lois – a'i thestun oedd yr 'Haf a'r Gaeaf'. Gobeithio y bydd y Llanw yn fodlon cyhoeddi eu gwaith cyn hir.

Un gair cyn cloi – diolch i'r rhai ohonoch wnaeth godi'r ffôn a chywiro Sian Cothi. Fe gafwyd ymddiheuriad - o Anellog yr oedd Huw'n dod nid 'o ardal Pwllheli' siŵr iawn!

Parti Nadolig



Rhai o henoed yr ardal ynghyd â'r Cynghorydd Angela Russel gyda Ifan Hughes yn gweini arnynt.

Daeth criw o aelodau clybiau henoed i'r ysgol cyn y Nadolig i gael cinio a chân yng nghwmni rhai o ddisgyblion yr ysgol. Roedd y cwbl wedi ei drefnu gan ddsbarth Blwyddyn 10 Mrs Angela Rhydderch. Diolch i Del;yth am y bwyd ac i Mr Davies a Ms Williams am yr adloniant. Diolch hefyd i'r holl ddisgyblion a'r gwesteion.